



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed Powys i:
arolygiad Arolygiaeth Cwnstablïaeth a Gwasanaethau Tân ac
Achub EF o drwyddedu arfau saethu ar draws heddluoedd yng
Nghymru a Lloegr**

Rwyf yn cydnabod yr argymhellion a amlinellir yn yr adroddiad hwn a byddaf yn monitro cynnydd yr Heddlu tuag at eu gweithredu. Rwyf yn ddiolchgar bod Arolygiaeth Cwnstablïaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF wedi cyflawni'r gwaith pwysig hwn a'u bod wedi adnabod gweithredoedd gwirioneddol ar gyfer diwygio cenedlaethol mewn perthynas â thrwyddedu arfau saethu. Mae'r crynodeb hwn yn nodi'r sicrwydd rydw i wedi ei dderbyn gan Heddlu Dyfed Powys.

Trafododd Heddlu Dyfed Powys, dan arweiniad y Prif Gwnstabl Cynorthwyo a'r Pennaeth Trwyddedu Arfau Saethu argymhellion yr arolygiad hwn mewn cyfarfod diweddar y Bwrdd Dalfeydd a Chyfiawnder Troseddol Strategol. Rydw i wedi cael gwybod y cafwyd cadarnhad y bydd Heddlu Dyfed Powys yn mabwysiadu pob un o'r argymhellion ac y gwelir hyn fel cam cadarnhaol tuag at wella'r broses trwyddedu arfau saethu. Y Pennaeth Trwyddedu Arfau Saethu fydd arweinydd penodedig yr heddlu ar gyfer yr argymhellion er mwyn sicrhau bod momentwm yn cael ei gynnal. Bydd yr arweinydd yn adrodd i'r Bwrdd Dalfeydd a Chyfiawnder Troseddol Strategol er mwyn sicrhau bod goruchwyliaeth briodol i'r broses.

Rydw i wedi fy sicrhau bod Heddlu Dyfed Powys yn gyffredinol eisoes mewn safle cadarnhaol mewn perthynas â'r argymhellion a bod mecanweithiau priodol mewn lle er mwyn parhau i weithio tuag at welliannau.

Rwyf yn disgwyl canlyniadau'r argymhellion cenedlaethol yn awyddus, ochr yn ochr â'r Heddlu, er mwyn sicrhau bod trwyddedu arfau saethu'n gyson ar draws Cymru a Lloegr. Byddaf i a fy nhîm yn parhau i weithio'n agos gyda chynrychiolwyr Heddlu Dyfed Powys i sicrhau bod pob dysgu perthnasol o ddirnadaeth a gynhyrchwyd drwy weithgarwch Arolygiaeth Cwnstablïaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF yn cael ei weithredu er mwyn gwella'r gwasanaeth plismona i breswylwyr ardal Dyfed Powys.